# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 29 Medi 2011** |
| Amser: | **09:30 - 12:01** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_700000_29_09_2011&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **Ann Jones (Cadeirydd)**<br>**Peter Black**<br>**Mike Hedges**<br>**Mark Isherwood**<br>**Bethan Jenkins**<br>**Gwyn R Price**<br>**Ken Skates**<br>**Janet Finch-Saunders**<br>**Joyce Watson** |
| Tystion: | **Naomi Alleyne, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>**Bernie Bowen-Thomson, Safer-Wales**<br>**Jim Crowe, Anabledd Dysgu Cymru**<br>**Rhian Davies, Anabledd Cymru**<br>**Miranda French, Anabledd Cymru**<br>**David Morgan, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**<br>**Karen Warner, Anabledd Dysgu Cymru**<br>**Mark Williams, Safer Wales** |
| Staff y Pwyllgor: | **Marc Wyn Jones (Clerc)**<br>**Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)**<br>**Hannah Johnson (Ymchwilydd)** |

### 1. Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhodri Glyn Thomas. Nid oedd unrhyw ddirprwyon.

## 2. Aflonyddu ar sail anabledd - casglu tystiolaeth

2.1 Croesawodd y Cadeirydd y tystion canlynol: Rhian Davies a Miranda French o Anabledd Cymru; Jim Crowe a Karen Warner o Anabledd Dysgu Cymru; Mark Williams a Bernie Bowen-Thomson o Cymru Ddiogelach; a Naomi Alleyne a David Morgan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC).

2.2 Gwnaeth y tystion gyflwyniadau cyn ateb cwestiynau gan Aelodau.

2.3 Bydd CLlLC yn darparu nodyn am y protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth ynghylch oedolion sy'n agored i niwed.

2.4 Bydd CLlLC yn darparu nodyn am y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn ysgolion ynghylch aflonyddu ar sail anabledd.

2.5 Cytunodd cynghorydd cyfreithiol y Pwyllgor i ddarparu nodyn am ddiogelu data.

## 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

3.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 4. Penderfyniad i sefydlu Grwp Gorchwyl a Gorffen i ystyried y rhagolygon ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru (11.40 - 11.50)

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y penderfyniad canlynol, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 17.17:

"Bydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 17.17, er mwyn trafod rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru.

Aelodau'r grŵp gorchwyl a gorffen fydd: Ken Skates; Janet Finch-Saunders; Bethan Jenkins a Peter Black.

Ken Skates fydd Cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen.

Cylch gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen fydd trafod y rhagolygon ar gyfer gwahanol lwyfannau'r cyfryngau yng Nghymru ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Cymunedau a Llywodraeth Leol, drwy ymchwilio i:

- Gyflwr presennol y cyfryngau yng Nghymru a'r effaith y mae technoleg newydd a datblygiadau eraill yn ei chael ar hyn, yng nghyd-destun pryderon parhaus ynghylch dyfodol y cyfryngau darlledu a phrint yng Nghymru;

- Beth ddylai'r blaenoriaethau fod o safbwynt Cymru wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno cynigion ar gyfer ei Bil Cyfathrebu;

- Y cyfleoedd i adeiladu modelau busnes newydd ar gyfer y cyfryngau yng Nghymru; a

- Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i roi argymhellion adroddiad Hargreaves ar waith a pha gamau eraill y gellid eu cymryd i gryfhau'r cyfryngau yng Nghymru o ran cynnwys a lluosogrwydd y ddarpariaeth.

Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn dod i ben ar 31 Ionawr 2012, neu pan fydd wedi adrodd yn ôl, pa un bynnag a ddaw gyntaf."

4.3 Diolchodd Cadeirydd y grŵp gorchwyl a gorffen i Bethan Jenkins, a gyflwynodd y cais gwreiddiol i sefydlu'r grŵp, ac i'w staff, a fu'n cynorthwyo'r tîm clercio cyn ei sefydlu.

## 5. Blaenraglen Waith (11.50 - 12.00)

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y flaenraglen waith, a chytunodd mai tai cymdeithasol fyddai testun yr ymchwiliad nesaf. Bydd cylch gorchwyl drafft yn cael ei anfon at yr Aelodau i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.

## 6. Papurau i'w nodi

6.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

## Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.